

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Chwefror 1af, 2018 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans (Cadeirydd); Margaret Griffith (Is gadeirydd); William Ifor Hughes; Trefor Wyn Jones; Angela Williams; Ceri Jones; Tegid Jones; Aled Lloyd Evans; Aled Davies; Thomas Prys Jones; Sion Aled Jones; Anwen Jones a'r Clerc.

1. Croesawu'r Cynghorydd Gareth O Davies, 2 Talafon, Llanystumdwy fel Cynghorydd dros Ward Llanystumdwy ar y Cyngor ac arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd. Roedd y Cynghorydd Davies yn methu bod yn bresennol ac wedi anfon ymddiheuriad.
2. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Sian Angharad Parry; Naomi Jones a Gareth O Davies.
3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes ac yna'r Cyngor gynhaliwyd ar Ionawr 4ydd, 2018.
4. Arwyddwyd cadarnhad taliadau BACS gan y Cadeirydd.
5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
6. Datgan buddiant personol. Y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans ac Aled Davies yn datgan buddiant personol yn rhif 14 ar y rhaglen waith, pwyllgor Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog yn gofyn i'r Cyngor roi bin baw ci ar bostyn arwydd y fynwent, ac yn rhif 23.3 ar y rhaglen waith, cais pwyllgor Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog am gymorth ariannol oherwydd eu bod ar bwylgor y fynwent. Hefyd y Cynghorydd Aled Davies yn datgan buddiant personol yn rhif 23.1 ar y rhaglen waith, cais Eisteddfod Gadeiriol Chwilog am gymorth ariannol oherwydd bod ei briod yn Gadeirydd y pwyllgor ac yn rhif 23.9 ar y rhaglen waith, cais Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd am gymorth ariannol am ei fod yn weinidog y capel. Y Cynghorwyr Anwen Jones, Sion Aled Jones a Tegid Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 23.4 ar y rhaglen waith, cais pwyllgor Mynwent Newydd Llanystumdwy am gymorth ariannol am eu bod ar bwylgor y fynwent. Y Cynghorydd Angela Williams yn datgan buddiant personol yn rhif 23.9 ar y rhaglen waith, cais Cymdeithas Adloniant Pencaenewydd am gymorth ariannol, hi ydi Cadeirydd y pwyllgor. Y Cynghorwyr Margaret Griffith a Trefor W Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 23.1 ar y rhaglen waith, cais pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog am gymorth ariannol, y ddau yn aelodau o'r pwyllgor. Y Cynghorydd Ceri Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 23.5 ar y rhaglen waith, cais Clwb Ffermwyr Ifanc Llanybi am gymorth ariannol am fod ei merch yn mynychu'r clwb. Y Cynghorydd Thomas Prys Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 23.2 ar y rhaglen waith, cais pwyllgor Mynwent Capel Helyg am gymorth ariannol achos mae'n un o ymddiriedolwyr y capel/fynwent. Y Cynghorydd Marian Evans yn datgan buddiant personol yn rhif 23.4 ar y rhaglen waith, cais pwyllgor Mynwent Newydd Llanystumdwy am gymorth ariannol achos hi ydi Ysgrifennydd y pwyllgor ac yn datgan buddiant personol yn rhif 23.8 ar y rhaglen waith, cais pwyllgor Neuadd Llanystumdwy am gymorth ariannol am mai ei gŵr ydi Cadeirydd y pwyllgor.
7. Cyngor Gwynedd.
 1. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy. Penderfynwyd parhau bod yn rhan o'r cynllun partneriaethu a chyfrannu'r un swm sef £2,000- am y flwyddyn 2018/19.
 2. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian.. Derbyniwyd, bydd y Cynghorydd Trefor W Jones yn mynd i'r cyfarfodydd yma fel arfer, mae'r nesaf am 11.15 o'r gloch, ddydd Gwener, Mawrth 9fed yn y Ganolfan (ger yr harbwr), Porthmadog

3. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cromlech Beudy Gromlech, Rhoslan – Llwybr rhif 71A.
Yn fanwl gywir mae angen caniatâd y tiffeddiannwr i alluogi'r cyhoedd fynd o gwmpas y gromlech, dim ond hawl i gerdded ar hyd llinell y llwybr cyhoeddus sydd yna. Penderfynwyd dweud wrth Gyngor Gwynedd pwy ydi perchennog y tir, hyd y gŵyr y Cyngor yma, a gofyn i Gyngor Gwynedd gysylltu gyda'r tiffeddiannwr.
 4. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Rhesdai Penygroes, Llanystumdwy, achlysur llifogydd eithriadol 22/11/2017. Penderfynwyd derbyn yr ateb mai pwerau dewisol mae'r Cyngor Sir yn ei ymarfer i ymchwilio problemau llifogydd i eiddo trigiannol a bod y llythyr anfonwyd o'r Cyngor yma yn cael ei gyfeirio ymlaen er gwybodaeth y Tim Draenio Tir yn y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.
 5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned. Penderfynwyd derbyn y trefnir i lanhau'r twll edrych i ddraenio'r lôn ger Coed Cae Gwyn; nad oes cyllideb cyfalaf i baratoi mân welliannau (mannau pasio) ar lôn Sardis ond an dynnu sylw'r Uned Traffig a Phrosiectau i'r pryderon trafndiaeth; bod y gwaith yn ardal Chwilog a Llanystumdwy yn cael sylw.
 6. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor. Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Marian Evans i gynrychioli'r Cyngor ar y fforwm.
 7. Gwasanaeth Cefnogol, Adnoddau Dynol; Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn. Cynigiodd y Cynghorydd Tegid Jones wneud ymholiadau pellach.
 8. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cyflymder traffig ym mhentref Chwilog. Roedd nifer o sylwadau yn cael eu cynnig gan y Cyngor Sir ac ar ôl trafodaeth, penderfynwyd gofyn am bris arwydd sydd yn fflachio ochr Y Ffôr wrth fynd i mewn i bentref Chwilog.
 9. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned. Derbyniwyd.
 10. Gwynedd Ddigidol; gair gan y Cynghorydd Anwen Jones. Penderfynwyd holi am fwy o wybodaeth.
8. Cyngor Gwynedd.
- Trafodwyd y ceisiadau cynllunio canlynol yn y gymuned a phenderfynwyd:
1. Cais C18/0022/41/LL – Codi orendy unllawr to gwastad ar ochr yr eiddo; Rynys, Llanarmon. Dim gwrthwynebiad.
 2. Cais C17/1259/41/LL – Trosi adeiladau allanol i 2 uned gwyliau a gosod system trin carffosiaeth; Y Glyn, Llanystumdwy. Cefnogi.
 3. Cais C18/0032/41/LL – Cais i godi estyniad deulawr ar ochr yr eiddo; Bryn Gwynt, Afonwen. Cefnogi.
9. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru; Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd –Cynigion Drafft. Derbyniwyd er gwybodaeth.
10. Un Llais Cymru;
- a. Adolygiad o'r Sector Cynghorau Lleol. Penderfynwyd cefnogi'r sylwadau wnaethpwyd yn y cyfarfod gafwyd yng Nghaernarfon.
 - b. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Penderfynwyd aros am y canllaw.
11. Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru; neges ar ran panel yr adolygiad annibynnol. Penderfynwyd cwyno am safon y Gymraeg ac mai yn Saesneg yn unig mae'r linc i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
12. Cyngor Tref Cricieth; ymateb i'r llythyr ynghylch llinellau melyn dwbl ger y Ganolfan Iechyd, Cricieth. Derbyniwyd yr ateb nad oeddent wedi derbyn cwynion a bod yr estyniad i'r maes parcio yng nghefn y ganolfan yn hollol ddigonol i ateb y galw a bod

Cyngor Tref Cricieth yn gefnogol i'r llinellau melyn gan fod y darn lôn yn beryglus hebddynt.

13. Gohebiaeth oddi wrth Glwb Peldroed Llanystumdwy ynghylch nawdd gan y Fferm Solar gyferbyn â Hafan y Môr. Penderfynwyd ateb yn egluro bod y Cyngor yma wedi cysylltu dair gwaith yn holi am arian er budd y gymuned ac mai gwirfoddol ydi gwneud cyfraniadau o'r fath.

14. Gohebiaeth oddi wrth bwyllgor Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog yn gofyn i'r Cyngor yma roi bin baw ci ar bostyn arwydd y fynwent. Ymneilltuodd y Cyngorwyr Aled Davies ac Aled Lloyd Evans. Penderfynwyd peidio a chan y byddant, mae'n debyg, yn derbyn grant gan y Cyngor yma, rhif 23.3 ar y rhaglen waith, iddynt drafod trefnu cael bin o'r arian hwnnw.

15. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy –

- a. cyflwr y llwybr troed/beiciau rhwng Llanystumdwy a Chricieth. Roedd angen clirio ar ôl torri gwrychoedd ac roedd y Clerc wedi cysylltu gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd.
- b. y safle bws am Gricieth ger Gwyndy, Llanystumdwy. Roedd cwyn bod teithwyr yn sefyll mewn pwll o ddŵr yn y safle bws. Eto cysylltwyd gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd derbyn.

Rhoslan /Ynys

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

16. Cais gan drethdalwr i'r Cyngor yma ofyn i Scottish Power anfon rhywun i gymeryd darlleniad bob chwarter os ydi'r cwsmer mewn oed neu heb gyfrifiadur ac yn cael trafferth i anfon darlleniad. Penderfynwyd trafod y gwyn gyda Scottish Power.

17. Dogfen Ymgynghorol Cyngor Sir Gwynedd ar Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid Sirol. Caed tystiolaeth bod ystadegau'r Ddogfen yr ymatebwyd iddi yn dilyn Cyfarfod Rhagfyr 7fed, 2017 yn gamarweiniol ac yn cryfhau ymhellach ein dadl yn erbyn diddymu nawdd ariannol i'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn y Sir. Gair gan y Cyngorwyr Thomas Prys Jones. Penderfynwyd nodi anfodlonrwydd y Cyngor yma a chadw llygad ar y sefyllfa.

Materion Ariannol

18. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Rhoddwyd adroddiad lawn gyda'r balansau yn y tri chyfrif, yn cael eu cefnogi gan yr adroddiadau banc. Mae'r arian ad-daliad Arian Llwybrau, sef £537.80c wedi dod, dydi'r gwaith ar Gae Chwarae Llangybi ddim wedi'i gwblhau oherwydd y tywydd. Does dim peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

19. Gohebiaeth ynghylch cysylltiad band eang i Ffestri Capel Pencaenewydd. Mae'n ymddangos bod dal drafferthion cael cysylltiad. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

20. Derbyn taliad o £537.80c oddi wrth Gyngor Gwynedd, ad daliad arian Llwybrau. Penderfynwyd derbyn.

21. Yn aros am bris gan Mr D E Williams, Llithfaen am y gwaith symud y safle bws ger Stâd Maes Llwyd i gyferbyn â'r lloches bws ger stâd Cae'r Ffynnon, Llanystumdwy.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd, y pris ydi £1,500- +TAW. Gan mai un pris oedd gerbron rhoddwyd y Rheolau Sefydlog o'r neilltu, pawb yn cefnogi. Penderfynwyd derbyn y pris. Gyda'r Rheolau Sefydlog nôl yn eu lle aethpwyd ymlaen â'r rhaglen waith.

22. Anfonebau angen eu talu:

1. Hysbyseb dau fis yn Y Ffynnon am yr arian sydd i gael ei rannu -£24-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

2. Mr J D Roberts, CPFA, Cyfrifydd ac Archwiliwr, tâl am archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2016/17, ynghyd â pharatoadau mewn perthynas â chyflwyno Adroddiad Flynyddol i'r Archwiliwr Allanol - £75-, taliad siec. Hefyd roedd Mr Roberts wedi anfon llythyr i ddweud ei fod yn rhoi gorau i wneud y gwaith ac yn diolch i'r Cyngor yma am eu cydweithrediad dros y blynyddoedd. Penderfynwyd ei dalu anfon llythyr i ddiolch i Mr Roberts am ei waith, siec rhif 100971.

3. Mr Gareth Jones, Caeathro, am ei waith yn cadw safle bedd Lloyd George yn daclus yn ystod tymor 2017 - £250-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

23. Ceisiadau am gymorth ariannol. Trafodwyd a phenderfynwyd fel a ganlyn:

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog

Ymneilltuodd y Cynghorwyr Aled Davies, Margaret Griffith a Trefor W Jones. Cyfrannwyd £500-, siec rhif 100001.

2. Mynwent Capel Helyg, Llangybi

Ymneilltuodd y Cynghorydd Thomas Prys Jones.

Cyfrannwyd £500- siec rhif 100002.

3. Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog

Ymneilltuodd y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans ac Aled Davies.

Cyfrannwyd £1,000- siec rhif 100003.

4. Mynwent Newydd Llanystumdwy

Ymneilltuodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans a'r Cynghorwyr Sion Aled Jones, Tegid Jones ac Anwen Jones a chyda'r Is gadeirydd yn y gadair, cyfrannwyd £600- siec rhif 100004.

5. Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi

Gyda'r Cadeirydd nôl yn y gadair, ymneilltuodd y Cynghorydd Ceri Jones.

Cyfrannwyd £1000- siec rhif 100005.

6. Clwb Peldroed Llanystumdwy

Cyfrannwyd £750- siec rhif 100006.

7. Neuadd Goffa Chwilog

Cyfrannwyd £500- siec rhif 100007.

8. Neuadd Llanystumdwy

Ymneilltuodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans a chyda'r Is gadeirydd yn y gadair cyfrannwyd £1,000- siec rhif 100008.

9. Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd

Gyda'r Cadeirydd nôl yn y gadair, ymneilltuodd y Cynghorwyr Aled Davies ac Angela Williams. Cyfrannwyd £600- siec rhif 100009.

10. Clwb Hoci Pwllheli

Cyfrannwyd £500- siec rhif 100972.

11. Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018

Cyfrannwyd £25- siec rhif 100973.

12. Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018

Cyfrannwyd £50- siec rhif 100974.

13. Gŵyl Gerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018

Cyfrannwyd £25- siec rhif 100975.

14. Dawns i Bawb

Cyfrannwyd £100- siec rhif 100976.

15. Theatr Bara Caws

Cyfrannwyd £100- siec rhif 100977

Roedd rhain i gyd wedi cyflwyno cais drwy lythyr a mantolen ariannol.

Hefyd wedi derbyn ceisiadau gan y canlynol ond heb fantolen er gofyn am un:

1. Clwb Nofio Porthmadog-Blaenau Ffestiniog-Pwllheli

2. Grŵp Mynediad Dwyfor

3. Marie Curie Nursing

Ni chyfrannwyd i'r tri yma.

24. *Trwy ganiatâd y Cadeirydd, cwyn gan drethdalwyr yn Chwilog, cyflwr ymyl y ffordd ar y tro rhwng tai Groesffordd a Bodalaw a does dim arwydd i ddynodi lleoliad yr ysgol. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Priffyrdd Dwyfor, Cyngor Gwynedd a gofyn am arwydd ysgol.

25. Gofynnwyd i drafod Rheolau Sefydlog a pholisiau'r Cyngor fod yn eitem ar raglen waith Cyngor mis Mawrth.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.